Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Llangynnwr

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae arweinwyr medrus yn sefydlu diwylliant cadarnhaol ac ethos cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar ddysgu a lles disgyblion yn gydwybodol a chywrain. Mae'r athroniaeth anogol hwn, sy'n ganolog i'w strategaethau gwella, yn arwain at ymddygiad rhagorol a brwdfrydedd ar gyfer dysgu ymhlith disgyblion. Mae parodrwydd arweinwyr i wella arferion yr ysgol trwy werthusiadau rheolaidd a threfnus yn cyfrannu at brosesau gwella trylwyr.

Mae arweinwyr yn adolygu datblygiad y staff yn fwriadus ac mae cyfleoedd dysgu proffesiynol ymysg y staff yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio arweinwyr yn ddeallus, ac yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu trwy gylch monitro manwl. Mae arweinwyr yn dyrannu rolau a chyfrifoldebau yn synhwyrol, gan ystyried baich gwaith a lles staff yn effeithiol. Mae cyfleoedd dysgu, fel teithiau i gyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'u cynefin, yn hyrwyddo eu hymglymiad cymunedol yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion leisio eu barn yn dylanwadu'n dda ar fywyd yr ysgol.

Mae'r sesiynau addysgu yn symud ar gyflymdra da, ac mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau difyr sy'n dilyn diddordebau disgyblion yn ddeallus. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu medrau llafaredd a darllen cadarn ac maent yn ysgrifennu'n llwyddiannus at ddibenion amrywiol. Maent yn defnyddio medrau rhifedd a digidol pwrpasol yn hyderus ar draws y cwricwlwm ac yn datblygu tosturi a pharch at bobl eraill yn llwyddiannus.

Mae staff a disgyblion yn datblygu perthnasoedd gwaith clós a theyrngar, ac mae athrawon yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau'n frwdfrydig. Maent yn darparu adborth priodol i gefnogi disgyblion i wella'u dysgu. Er hyn, nid yw ansawdd adborth athrawon yn nodi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae'r amgylchedd dysgu yn gartrefol ac ysgogol ac yn cynnwys adnoddau cyfoethog, tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r cwricwlwm yn cynnig profiadau dysgu eang, sy'n adeiladu'n systematig ar fedrau disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol, emosiynol a chreadigol gwerthfawr, sy'n cefnogi ymwybyddiaeth ddiwylliannol gadarn.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn nodi’r camau nesaf yn nysgu’r disgyblion yn effeithiol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/04/2025